Cyllid & Thollau EM

# Hawlio trosglwyddiad o'r haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio ar gyfer ystadau wedi'u heithrio

**Pryd na ddylech ddefnyddio'r ffurflen hon**
Peidiwch â llenwi'r ffurflen hon ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2022. Os ydych wedi llenwi ffurflen 'IHT400 – Cyfrif Treth Etifeddiant' - defnyddiwch Atodlen 'IHT402 Cais i drosglwyddo rhan o'r haen gyfradd sero nas defnyddiwyd' yn ei lle.

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y fersiwn hwn o'r ffurflen hon dim ond pan fu farw'r person:

- ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 ac
- ar neu cyn 31 Rhagfyr 2021
- bu farw ei briod neu ei bartner sifil a fu farw gyntaf, ar neu ar ôl 13 Tachwedd 1974 (5 Rhagfyr 2005 ar gyfer partneriaid sifil)
- pan fu farw'r priod neu'r partner sifil, ni ddefnyddiodd ei ystâd unrhyw ran o'r haen cyfradd sero a oedd ar gael iddi (gweler y nodiadau ar dudalen 4)
- rydych wedi llenwi ffurflen IHT205 (neu C5(2006) yn yr Alban) ac mae gwerth ystâd y person sydd bellach wedi marw yn llai na dwywaith haen cyfradd sero'r Dreth Etifeddiant, ac mae'r ystâd, fel arall, yn gymwys fel ystâd wedi'i heithrio

## Yr wybodaeth a'r dogfennau sydd eu hangen arnoch

Bydd angen i chi gael gwybod pwy oedd ysgutor ystâd y priod neu'r partner sifil, gan y bydd angen i chi gael gwybodaeth ganddo i lenwi'r ffurflen hon. Hefyd, bydd angen i chi ddarganfod pwy a elwodd o ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf, a pha asedion oedd yn yr ystâd.

Dylech gael copïau o'r dogfennau canlynol ar gyfer ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf:

- grant cynrychiolaeth (*confirmation* yn yr Alban)
- os gadawodd y priod neu'r partner sifil ewyllys, copi ohoni
- os cafodd Gweithred Amrywio neu ddogfennau tebyg eraill eu llunio er mwyn newid pwy oedd yn etifeddu ystâd y priod neu'r partner sifil, copi ohonynt

**Enw'r ymadawedig** (y priod neu'r partner sifil a fu farw ail)

**Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

Sicrhewch eich bod yn cadw'r dogfennau hyn yn ddiogel rhag ofn i ni ofyn am gael eu gweld yn hwyrach.
**Peidiwch ag anfon y dogfennau gwreiddiol gyda'r ffurflen.**

## I ble y dylid anfon y ffurflen?

Dylech anfon y ffurflen hon ynghyd â ffurflen IHT205 (neu C5(2006) yn yr Alban) i gofrestrfa brofiant/swyddfa clerc siryf gyda'r cais am grant cynrychiolaeth/confirmation.

## Dyddiad cau

Rhaid i chi anfon y ffurflen hon cyn pen 24 mis ar ôl diwedd y mis pan fu farw'r ymadawedig.
Er enghraifft, os bu farw'r ymadawedig ar 10 Hydref 2019, byddai angen i chi anfon y ffurflen hon gyda ffurflen IHT205 (neu C5(2006) yn yr Alban) erbyn 31 Hydref 2021.

## Nodiadau

Mae nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon ar dudalen 4 ac yn nhaflen IHT206 (ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) (neu C3(2006) (ar gyfer yr Alban)).

## Help

I gael rhagor o wybodaeth neu help:

- ewch i www.gov.uk/inheritance-tax
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900

# Manylion y priod neu'r partner sifil

Llenwch yr adran hon gyda manylion y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf.

1 **Enw'r priod neu'r partner sifil**

Teitl – nodwch MR, MRS, MISS, MS neu deitl arall

Cyfenw neu enw teulu

Enw cyntaf

2 **Cyfeiriad parhaol hysbys diwethaf**

Cod post

3 **Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

4 **A gafwyd grant cynrychiolaeth?**

Do ☐ Naddo ☐

Os 'Do', rhowch ddyddiad a lleoliad y grant
Dyddiad DD MM BBBB

Lleoliad y grant

## Manylion y priod neu'r partner sifil parhad

**5** **Dyddiad priodi neu ffurfio'r bartneriaeth sifil**
DD MM BBBB

**6** **Lleoliad priodi neu ffurfio'r bartneriaeth sifil**
Enw'r adeilad, yr eglwys neu'r swyddfa gofrestru a'r ardal

## Ystâd y priod neu'r partne r sifil

Llenwch yr adran hon gyda manylion ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf.

**7** **A oedd yn byw (yn ei gartref parhaol) yn y DU ar ddydiad y farwolaeth?**

Oedd — Ewch i gwestiwn 8

Nac oedd — Peidiwch â llenwi gweddill y ffurflen hon. Os hoffech hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio, dylech lenwi ffurflenni IHT400 ac IHT402

**8** **A oedd ei ystâd wedi'i heithrio'n gyfan gwbl rhag Treth Etifeddiant?**
Byddai ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf wedi'i heithrio'n gyfan gwbl os cafodd ei phasio i fuddiolwyr eithriedig, megis y priod neu'r partner sifil sy'n fyw neu elusen.

Oedd — Ewch i gwestiwn 9

Nac oedd — Peidiwch â llenwi gweddill y ffurflen hon. Os hoffech hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio, dylech lenwi ffurflenni IHT400 ac IHT402

**9** **A oedd yn berchen ar asedion ar y cyd a gafodd eu trosglwyddo ar ôl ei farwolaeth i rywun heblaw am y priod neu'r partner sifil sydd bellach wedi marw?**

Oedd — Peidiwch â llenwi gweddill y ffurflen hon. Os hoffech hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio, dylech lenwi ffurflenni IHT400 ac IHT402

Nac oedd — Ewch i gwestiwn 10

**10** **A wnaeth roi unrhyw roddion neu wneud trosglwyddiadau eraill yn ystod y 7 mlynedd cyn iddo farw nad oeddent wedi'u heithrio rhag Treth Etifeddiant?**
Atebwch 'Do' os gwnaeth y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf roi rhoddion allan o incwm sy'n ffurfio cyfanswm o fwy na £3,000 yn y 7 mlynedd cyn iddo farw.

Do — Peidiwch â llenwi gweddill y ffurflen hon. Os hoffech hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio, dylech lenwi ffurflenni IHT400 a IHT402

Naddo — Ewch i gwestiwn 11

**11** **A gafodd naill ai ryddhad amaethyddol a/neu ryddhad busnes ei ddidynnu naill ai o'i ystâd neu o unrhyw roddion a wnaed yn ystod ei fywyd?**

Do — Peidiwch â llenwi gweddill y ffurflen hon. Os hoffech hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio, dylech lenwi ffurflenni IHT400 ac IHT402

Naddo — Ewch i gwestiwn 12

**12** **A wnaeth roi unrhyw roddion â budd amodol heblaw am roi rhoddion o'r fath i'r priod neu'r partner sifil sydd bellach wedi marw?**
Enghraifft o rodd â budd amodol yw pan fo rhywun wedi rhoi tŷ i un o'i blant ond roedd yn parhau i fyw ynddo.

Do — Peidiwch â llenwi gweddill y ffurflen hon. Os hoffech hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio, dylech lenwi ffurflenni IHT400 ac IHT402

Naddo — Ewch i gwestiwn 13

**13** **A wnaeth elwa o ymddiriedolaeth yn ystod ei fywyd?**

Do — Peidiwch â llenwi gweddill y ffurflen hon. Os hoffech hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio, dylech lenwi ffurflenni IHT400 ac IHT402

Naddo — Ewch i gwestiwn 14

## Trosglwyddo haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio

Llenwch yr adran hon gyda manylion yr haen cyfradd sero sydd ar gael i'w throsglwyddo o ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf i ystâd yr ymadawedig sydd bellach wedi marw. Bydd angen rhywfaint o wybodaeth arnoch o'r ffurflen IHT205 neu C5(2006) yr ydych wedi'i llenwi ar gyfer y priod neu'r partner sifil a fu farw ail.

14 **Beth oedd haen cyfradd sero'r Dreth Etifeddiant ar ddyddiad marwolaeth y priod neu'r partner sifil a fu farw ail?**
Gweler cyfraddau a thablau IHT400 neu ewch i www.gov.uk/inheritance-tax

£

15 **Lluoswch y ffigur ym mlwch 14 â 2**

£

16 **Copïwch y ffigur o flwch K ar ffurflen IHT205 neu flwch E ar ffurflen C5(2006) i'r blwch hwn**

£

Os yw'r ffigur ym mlwch 16 yn fwy na'r ffigur ym mlwch 15, peidiwch â llenwi gweddill y ffurflen hon. Os ydych am hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio, dylech lenwi ffurflenni IHT400 ac IHT402.

## Datganiad

Rhaid i bawb sy'n gwneud cais am grant cynrychiolaeth/*confirmation* i ystâd yr ymadawedig lofnodi a dyddio'r ffurflen hon. Os byddwch yn rhoi gwybodaeth ffug, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosbau ac wynebu erlyniad.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i IHT206 a darllen y nodiadau ar dudalen 25 (ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon), neu C3(2006) a darllen y nodiadau ar dudalen 28 (ar gyfer yr Alban).

Rwyf/Rydym yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth/ein gwybodaeth a'm/a'n cred:

- bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf/gennym ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn
- roedd yr ymadawedig a'i briod neu bartner sifil yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar ddyddiad marwolaeth y priod neu'r partner sifil
- pan fo Gweithred Amrywio wedi'i llunio ar farwolaeth y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf, mae'r ffurflen hon wedi'i llenwi gan ddangos effaith yr ewyllys neu ddiewyllysedd a'r Weithred Amrywio gyda'i gilydd
- ni ddefnyddiwyd unrhyw faint o haen cyfradd sero'r Dreth Etifeddiant yn ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf, ac rwyf/rydym yn hawlio'r gyfran sydd heb ei defnyddio o'r haen cyfradd sero (100%) yn erbyn ystâd drethadwy'r priod neu'r partner sifil a fu farw ail

**Cynrychiolydd cyntaf**

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Ail gynrychiolydd**

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Trydydd cynrychiolydd**

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Pedwerydd cynrychiolydd**

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

# Nodiadau

Mae'r nodiadau hyn yn egluro'r broses o drosglwyddo haen cyfradd sero'r Dreth Etifeddiant sydd heb ei defnyddio, a phryd y gallwch lenwi'r ffurflen hon.

**Haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio ac eithriadau**

Yr haen cyfradd sero yw swm ystâd drethadwy unigolyn a all gael ei drosglwyddo adeg ei farwolaeth cyn i Dreth Etifeddiant gael ei chodi (£325,000 ar gyfer 2011-12). Pan fydd unigolyn yn marw, efallai na fydd yr haen cyfradd sero sydd ar gael i'w ystâd yn cael ei defnyddio'n llwyr os yw'r canlynol yn berthnasol:

- mae cyfanswm gwerth yr ystâd yn is na therfyn yr haen cyfradd sero
- mae'r ystâd gyfan, neu rywfaint ohoni, wedi'i heithrio rhag Treth Etifeddiant, ac mae'r gweddill yn is na'r terfyn haen cyfradd sero

Mae trosglwyddiadau sydd wedi'u heithrio yn cynnwys:

- y rheiny i'r priod sy'n fyw ac sy'n briod, neu i'r partner sifil sy'n fyw ac sydd wedi'i gofrestru, yn gyfreithlon
- y rheiny i elusen gymwys
- y rheiny i blaid wleidyddol gymwys
- y rheiny yn dilyn marwolaeth ar wasanaeth gweithredol

Mae'r eithriadau'n gymwys i roddion oes a phan gaiff asedion eu trosglwyddo adeg y farwolaeth.

**Cyfyngiad i'r eithriad ar gyfer priod neu bartner sifil**

Os yw'r priod neu'r partner sifil sy'n gwneud y trosglwyddiad yn byw yn y DU ac mae'r unigolyn sy'n derbyn y trosglwyddiad yn byw y tu allan i'r DU, mae'r eithriad wedi'i gyfyngu i £55,000 os bu farw'r priod neu'r partner sifil ar neu ar ôl 9 Mawrth 1982 a chyn 6 Ebrill 2013. Mae'r eithriad wedi'i gyfyngu i'r haen cyfradd sero os bu farw'r priod neu'r partner sifil ar neu ar ôl 6 Ebrill 2013.

I gael rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau sydd wedi'u heithrio, ewch i www.gov.uk/inheritance-tax

**Trosglwyddo haen cyfradd sero'r Dreth Etifeddiant sydd heb ei defnyddio**

Efallai y bydd yr haen cyfradd sero sydd ar gael i unigolyn yn gallu cael ei chynyddu gan ganran yr haen cyfradd sero na chafodd ei defnyddio adeg marwolaeth ei briod neu ei bartner sifil. Nid yw hyn yn digwydd yn awtomatig. Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen a gwneud cais i'w drosglwyddo. Mae'n rhaid cyflwyno'r cais pan fydd yr ail briod neu bartner sifil yn marw.

**Llenwi'r ffurflen hon**

Gallwch ond lenwi'r ffurflen hon pan na fydd unrhyw faint o'r haen cyfradd sero adeg y farwolaeth gyntaf wedi'i defnyddio, megis pan fydd holl ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf yn cael ei throsglwyddo, wedi'i heithrio rhag Treth Etifeddiant, i'r priod neu'r partner sifil sy'n fyw (sydd bellach wedi marw) neu i elusen. Fodd bynnag, adeg y farwolaeth gyntaf, os cafodd rhai o'r asedion eu trosglwyddo i unigolyn heb gael eu heithrio, megis i berthynas arall, byddai rhywfaint o'r haen cyfradd sero wedi'i defnyddio ac ni ddylech lenwi'r ffurflen hon. Yn lle hynny, dylech lenwi ffurflen IHT400 - Cyfrif Treth Etifeddiant ac Atodlen IHT402 - Cais i drosglwyddo rhan o'r haen gyfradd sero nas defnyddiwyd.

**Enghraifft 1**

Bu farw Ann ym 1990. Yr haen cyfradd sero oedd £128,000 bryd hynny. Rhoddwyd gwerth o £200,000 ar ei hystâd, ac yn ei hewyllys gadawodd £1,000 i'w mab a'r gweddill i'w phriod, Jon. Mae hyn yn golygu bod £1,000 o'r haen cyfradd sero wedi'i defnyddio. Mae Jon bellach wedi marw, gan adael ystâd gwerth £500,000, ac mae ei ysgutorion am hawlio trosglwyddiad o'r haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio. Gallant wneud hyn, ond gan fod rhywfaint o haen cyfradd sero Ann eisoes wedi'i defnyddio, ni fydd ystâd Jon yn gymwys fel ystâd wedi'i heithrio. O ganlyniad, mae'n rhaid iddynt lenwi ffurflenni IHT400 a IHT402 i hawlio'r haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio.

**Enghraifft 2**

Bu farw Raj yn 2002 pan mai £250,000 oedd yr haen cyfradd sero. Gadawodd ystâd gwerth £270,000. Cafodd ei ystâd gyfan ei throsglwyddo i'w wraig, Kamlesh. Felly, roedd yr ystâd wedi'i heithrio. Mae ei wraig bellach wedi marw, gan adael ystâd gwerth £450,000. Mae ei hysgutorion wedi llenwi ffurflen IHT205 a byddai'r ystâd yn gymwys fel ystâd wedi'i heithrio, ond mae gwerth yr ystâd yn uwch na'r haen cyfradd sero. Gan fod holl haen cyfradd sero Raj ar gael o hyd, ac mae gwerth ystâd Kamlesh yn llai na dwywaith yr haen cyfradd sero, mae ei hystâd yn gymwys fel ystâd wedi'i heithrio. Gellir hawlio trosglwyddiad o'r haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio ar y ffurflen hon ac ar ffurflen IHT205.

**Gweithred Amrywio**

Os cafodd Gweithred Amrywio neu ddogfennau tebyg eraill eu llunio i newid pwy a etifeddodd ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf, dylech lenwi'r ffurflen hon gan ddangos effaith yr ewyllys/diewyllysedd a'r Weithred gyda'i gilydd.